Ymestyn rhwng gwawr a machlud

Trosolwg

Gall defnyddio dilyniant stori araf helpu i hybu sgiliau echddygol bras mewn modd tawel a hamddenol. Mae'r gweithgaredd hwn yn manteisio ar ddilyniannu synhwyraidd sy'n defnyddio symudiadau ar gyfer deffro, trefnu ac ymdawelu. Mae ailadrodd yn galluogi'r plant i ddysgu'r stori a'r symudiadau er mwyn gwella'r sgiliau echddygol yn drylwyr.



Gweithgareddau

Gwahoddwch y plant i ddod o hyd i fan lle gallant fod yn gyffyrddus ond lle gallant symud o gwmpas ar gyfer y symudiadau. Mae'n bosibl y byddant yn dewis defnyddio mat ymarfer corff neu deilsen carped i eistedd arno/arni.

Dywedwch wrth y plant y byddwn yn mynd ar siwrnai stori fer. Defnyddiwch y sgript i bennu cyflymder cyson, hamddenol a fydd yn galluogi'r plantvi archwilio'r symudiadau a rhoi cynnig arnynt.

Offer

- Matiau ymarfer corff/teils carped
- Sgript stori
- Teganau/Cardiau i ddangos pa ystum i'w greu (haul, coeden, cwningen, iâr fach yr haf, cath, buwch, neidr, craig a draenog)

Cwestiynau allweddol

Sut mae'n gwneud i dy gorff deimlo?
Alli di symud heb siglo gymaint?

Deilliannau dysgu

- Sgiliau echddygol manwl: gweithio ar gydsymud rhwng y llygaid a'r dwylo, ac yn benodol ar lyn ei dro'n helpu i drin a thrafod y corff a chael ei amryw rannau i gydsymud.
- Sgiliau echddygol bras: canolbwyntio'n fanwl ar gryfhau'r cyhyrau mawr, rheoli ystum y corff, a phropriodderbyniaeth.

Symud y dysgu yn ei flaen

Babanod – gweler y sgript atodol sydd wedi'i haddasu ar gyfer plant nad ydynt yn cerdded.
Plant bach – mae fersiwn rhyngweithiol iawn ar gael yn y sgript atodol er mwyn cadw diddordeb plant iau.